O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3153 (Cy.269)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn rhinwedd adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 Rhan III, rhaid i restrau ardrethu annomestig gael eu llunio ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn ar ôl 1990.

At ddibenion llunio rhestr o'r fath mae gwerth ardrethol hereditament annomestig i gael ei benderfynu ar y diwrnod y mae'n rhaid llunio'r rhestr neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2008 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerth ardrethol hereditament annomestig at ddibenion rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2010.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3153 (Cy.269)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007

*Gwnaed* *4 Tachwedd 2007*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad*

*Cenedlaethol Cymru* *5 Tachwedd 2007*

*Yn dod i rym* *1 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dyddiad prisio**

**2.** 1 Ebrill 2008 yw'r diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 (Prisio ar gyfer ardrethu annomestig) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion rhestrau ardrethol annomestig lleol a

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

chanolog sydd i'w llunio ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2010.

**Dirymu**

**3.** Dirymir Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002(**1**) i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru.

4 Tachwedd 2007

(**1**) O.S. 2002/3186 (Cy.302).